**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PWYLLGOR ARCHWILIO**

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2016 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 2pm.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| J R Skelland (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cllr A Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J G Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| C Hughes | Cyngor Gwynedd |
| A M Jones | Cyngor Gwynedd |
| P Prendergast | Cyngor Sir Ddinbych |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| D Taylor | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| J Vaughan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Wisinger | Cyngor Sir y Fflint |

HEFYD YN BRESENNOL:

D Docx (Trysorydd am y Tro a Dirprwy Brif Swyddog Tân); G Owens (Dirprwy Glerc); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); K V Williams (Adran Archwilio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); (Mark Jones, Swyddfa Archwilio Cymru); J Brown (Pennaeth Cyllid); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

YMDDIHEURIADAU:

| | |
|---|---|
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| D MacRae | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Dim.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 25 IONAWR 2016

2.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2016 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

2.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir.**

3 MATERION YN CODI

3.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

4 ADRODDIAD CYNNYDD GWEITHGOR Y CYNLLUN GWELLA

4.1 Cyflwynodd y DBST yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am hynt Gweithgor y Cynllun Gwella. Fe wnaeth y DBST roi cyflwyniad hefyd am yr amcanion gwella drafft a fydd yn cael eu hystyried gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 20 Mehefin 2016.

4.2 Bu'r Aelodau'n trafod yr adroddiad a'r cyflwyniad, ac yna **PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad cynnydd.**

5 FFI ARCHWILIO 2015-16

5.1 Fe wnaeth Mark Jones o Swyddfa Archwilio Cymru gyflwyno'r adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r aelodau am ffi'r Swyddfa Archwilio am y gwaith a wnaed ar y rhaglen archwilio perfformiad yn 2015-16.

5.2 Rhan o'r rhaglen oedd yr astudiaeth leol o gadernid ariannol, a nodwyd bod adroddiad yr Awdurdod yn gadarnhaol ac y dylid ei longyfarch am y gwaith a wnaed yn y maes hwn. Gofynnodd yr Aelodau a oedd y Swyddfa Archwilio'n rhannu arferion da a welwyd yn y sefydliadau, a nodwyd bod modd cyfnewid arferion da ar wefan y Swyddfa. Nodwyd hefyd y byddai gwaith archwilio perfformiad yn cael ei leihau'n gymesur yn 2016-17.

5.3 **PENDERFYNWYD nodi'r £15,136 o ffi sy'n gysylltiedig â rhaglen archwilio perfformiad Swyddfa Archwilio Cymru yn 2015-16.**

6 CYNLLUN A FFIOEDD ARCHWILIO 2016-17

6.1 Yna, cyflwynodd Mr Jones gynllun archwilio drafft Swyddfa Archwilio Cymru i'r Awdurdod ar gyfer 2016-17. Roedd y cynllun yn dangos y gwaith sydd i'w wneud, gan gynnwys adroddiad archwilio datganiadau ariannol, tystysgrif cynllun gwella a thystysgrif asesiad o berfformiad a chrynodeb blynyddol o'r adroddiadau archwilio ac asesu. £49,800 yw'r ffi a amcangyfrifir am y gwaith archwilio ariannol a pherfformiad.

6.2 Nodwyd bod grant Llywodraeth Cymru sy'n rhoi cymhorthdal i daliad y Swyddfa Archwilio am waith archwilio perfformiad yr Awdurdod wedi dod i ben. Felly, yn 2016-17, bydd y Swyddfa'n "cyfyngu ar ei waith archwilio i ddarparu sicrwydd bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ofynion statudol o ran cynllunio ac adrodd, ac i fonitro'r trefniadau llywodraethu a rheoli er mwyn ei fodloni ei hun fod gan yr Awdurdod y trefniadau angenrheidiol yn eu lle i gyflawni gwelliannau".

6.3 **PENDERFYNWYD nodi cynllun a ffioedd archwilio Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2015-16.**

7 DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

7.1 Cafodd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ei gyflwyno i'r aelodau er mwyn cael eu sylwadau cyn iddo gael ei gyflwyno gyda'r set gyflawn o gyfrifon ym mis Medi 2016. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn ffordd o adrodd yn gyhoeddus i ba raddau y mae Awdurdod yn cydymffurfio â'i God Llywodraethu Corfforaethol.

7.2 Aeth y DBST â'r aelodau drwy'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol gan esbonio'r gwaith a oedd yn cael ei wneud dan bob egwyddor. Cafodd argymhellion ar gyfer gwella eu gwneud yn 2014-15, a chafodd yr aelodau wybod am y cynnydd a wnaed dan bob argymhelliad yn ystod 2015-16. Mae camau newydd yn yr arfaeth ar gyfer 2016-17, gan gynnwys gwell cydweithio rhwng partneriaid sy'n wasanaethau brys; rheoli prosiectau'n well; trefniadau ar gyfer dyfodiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, a gwella rhagor ar y wybodaeth am iechyd, diogelwch a llesiant sydd o fewn y sefydliad.

7.3 **PENDERFYNWYD argymell Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2015-16 i'w gyflwyno ymlaen i'r Awdurdod.**

8 PERFFORMIAD ARIANNOL 2015-16

8.1 Cyflwynodd Sandra Forrest yr adroddiad a roddodd gyflwyniad manwl i berfformiad ariannol yr Awdurdod yn 2015-16. Roedd y Pwyllgor Archwilio wedi cael y gorchwyl o sicrhau bod craffu effeithiol yn digwydd ar yr adroddiadau ariannol ac i wneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub ar sail unrhyw ganfyddiadau.

8.2 Rhoddodd Ms Forrest fanylion yr arbedion a'r gorwariant ar wahanol linellau'r gyllideb ac atebodd gwestiynau'r aelodau. Roedd yr arbedion ar y gyllideb yn cynnwys:

- costau ynni - £50k – costau'n is oherwydd defnyddir llai o ganlyniad i rôl y swyddog monitro ynni a phrisiau is.
- tanwydd a theithio – arbed £214k oherwydd prisiau is a newidiadau i'r modd y cynhelir archwiliadau diogelwch yn y cartref.
- cyfathrebu - £212k – costau is ar gontract ffonau symudol / llinellau tir.

8.3 Nodwyd y bu gorwariant yn y meysydd a ganlyn:

- cynnal a chadw - £209k – ailddosbarthu gwariant cyfalaf fel refeniw, a dileu costau adleoli Cwrt Conwy (£60k) gan nad oedd yn ased i'r Awdurdod. Fodd bynnag, byddai arian yn cael ei arbed ar rent yn y tymor hir.
- cyfarpar gweithredol/gwisgoedd – £50k – wedi'u prynu'n gynt nag a gyllidebwyd er mwyn manteisio ar arbedion caffael.
- costau cyfrifiadurol - £187k – costau ychwanegol ar y contract cenedlaethol newydd ar gyfer system cysylltiadau radio.
- cynllun treialu cyd-ymateb - £78k – sefydlwyd menter newydd yn ystod y flwyddyn ariannol felly nid oedd cyllideb wedi'i gosod.

8.4 Atgoffwyd yr Aelodau fod yr Awdurdod wedi cytuno i ariannu peth o'r gwariant cyfalaf ar asedau byrdymor drwy gyfaniad o'r refeniw, yn arbennig cerbydau ysgafn a chyfarpar ar gyfer y fflyd, gan nodi y bydd yr arbedion ar gostau ad-dalu a benthyca. Yng nghyfarfod yr Awdurdod ym Mawrth 2016, cytunwyd i ddefnyddio unrhyw danwariant i ariannu'r rhaglen gyfalaf, a £641,158 oedd hyn ar gyfer 2015-16.

8.5 O ran y gwariant cyfalaf, nodwyd y canlynol:

- gosodwyd y gyllideb wreiddiol ar £10.85 miliwn. Cafodd hyn ei newid am i fyny ddechrau'r flwyddyn, i £12.2 miliwn er mwyn cymryd ystyriaeth o arian yn cario drosodd o'r flwyddyn flaenorol, sef y rhan fwyaf ar gyfer gorsafoedd Wrecsam a Glannau Dyfrdwy, cerbydau a chyfarpar
- ni fu unrhyw lithriant mawr yn y flwyddyn heblaw am wariant ar brosiectau penodol TG fel adnewyddu Gorchymyn a Rheoli, adleoli System Integredig Rheoli Cyfathrebu (ICCS) a phrosiectau TG llai eraill
- cafodd y rhaglen ei hariannu'n bennaf gan fenthyciadau ond roedd cyllid arall wedi dod o'r gronfa gyfalaf, refeniw, cyfraniadau allanol a derbyniadau cyfalaf.

8.6 **PENDERFYNWYD nodi:**

(i) y penderfyniad blaenorol i ran-ariannu'r rhaglen gyfalaf o'r refeniw, gan ei gynyddu o £534,048 i £641,158; a

(ii) y trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn a darpariaethau, fel y nodir isod:

| **Cynllun** | **Balans Agoriadol 01-Ebr-15 £** | **Symudiad 2015/16** | **Balans wrth gau 31-Maw-16** |
|---|---|---|---|
| **Darpariaethau** | | | |
| Darpariaeth ar gyfer Pensiynau ar sail Afiechyd | (269,000) | 169,000 | (100,000) |
| Darpariaeth ar gyfer Ôl-daliadau RDS | (26,841) | 26,841 | |
| Darpariaeth ar gyfer Pensiynau Ôl-weithredol RDS | (666,940) | 666,940 | |
| **CYFANSWM Y DARPARIAETHAU** | **(962,781)** | **862,781** | **(100,000)** |
| | | | |
| **Cronfeydd wrth gefn** | | | |
| Cronfa Gyffredinol | (1,816,836) | (862,781) | (2,679,617) |
| Cronfeydd a Glustnodwyd | 624,506) | | (624,506) |
| Cronfa Gyfalaf | (740,400) | 340,400 | (400,000) |
| **CYFANSWM Y CRONFEYDD** | **(3,181,742)** | **(522,381)** | **(3,704,123)** |

9 GWEITHGARWCH RHEOLI'R TRYSORLYS A GWIR DDANGOSYDDION ARIANNOL 2015-2016

9.1 Mae adroddiad blynyddol y trysorlys yn un o ofynion gweithdrefnau adrodd yr Awdurdod. Mae'n nodi gweithgarwch y trysorlys a'r gwir ddangosyddion ariannol yn 2015-2016, a hynny'n unol â gofynion y Cod Ariannol. Tasg y Pwyllgor Archwilio oedd sicrhau bod craffu effeithiol yn digwydd ar strategaeth rheoli'r trysorlys a'r polisïau, ac i wneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub ar sail eu canfyddiadau.

9.2 Rhoddodd Sandra Forrest gyflwyniad manwl ar strategaeth rheoli'r trysorlys a'r economi, gweithgareddau benthyca, gweithgareddau buddsoddi a dangosyddion ariannol. Nodwyd bod yr Awdurdod wedi cydymffurfio â'r holl ofynion statudol a rheoleiddiol, sy'n cyfyngu ar lefel y risg sy'n gysylltiedig â'i gweithgareddau rheoli'r trysorlys. O ran buddsoddiadau a wnaed, y drefn flaenoriaeth oedd diogelwch, yna hylifedd, yna arenillion. Mae'r gwariant cyfalaf a wnaed gan yr Awdurdod yn ddarbodus, fforddiadwy a chynaliadwy fel y dangosir gan y dangosyddion perfformiad a'r costau cyllido cyfalaf.

9.3 Bu'r Aelodau'n trafod y cyfraddau llog o ran benthyca a benthyciadau. Esboniodd Ms Forrest mai'r strategaeth bresennol oedd gohirio gweithgarwch benthyca cyhyd ag y bo modd a defnyddio cronfeydd a balansau i ariannu'r rhaglen gyfalaf am y tro. Awgrymwyd newid y strategaeth, sef cynyddu nifer y benthyciadau dros dro er mwyn manteisio ar y cyfraddau llog isel sydd ar gael ar fenthyciadau byrdymor. Dull pwyllog a ddilynid gyda buddsoddiadau, a'u cadw'n fyr hyd at dri mis.

9.4 Rhoddodd Ms Forrest fanylion y risgiau ar gyfer 2016/17, ac esboniodd bod y camau canlynol yn cael eu cymryd er mwyn lliniaru unrhyw risg gymaint ag y bo modd:

- mae ymgynghorwyr rheoli'r trysorlys (Arlingclose) yn monitro partïon i gontract yn ddyddiol o ran beth yw eu teilyngdod credyd a pha mor debygol yw fod y sefydliad yn methu
- cedwir cyn lleied â phosibl o arian dros ben, ac mae'r rhan fwyaf yn cael ei gadw mewn cyfrifon galw er mwyn cael llif arian
- dal £100k mewn cronfa wrth gefn i ymorol am unrhyw gynnydd mewn cyfraddau llog (1% ar £10 miliwn).

9.5 **PENDERFYNWYD argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub fod gwir ddangosyddion ariannol 2015-2016 yn cael eu cymeradwyo.**

10 DATGANIAD SICRWYDD BLYNYDDOL YR ARCHWILIAD MEWNOL 2015/2016

10.1 Cyflwynwyd yr adroddiad fel rhan o'r gofyniad blynyddol ar yr Awdurdod i gynnal adolygiad o ba mor effeithiol yw ei system rheolaeth fewnol.

10.2 Cadarnhawyd bod Pennaeth Archwilio Mewnol o'r farn fod gan yr Awdurdod broses reoli ddigonol ac effeithiol i reoli'r modd y bu'n cyflawni amcanion yr Awdurdod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016. Defnyddir y farn gyffredinol wrth baratoi'r datganiad llywodraethu blynyddol.

10.3 **PENDERFYNWYD y gellir derbyn datganiad sicrwydd blynyddol yr archwiliad mewnol a'i ddefnyddio i gyfrannu at dystiolaeth datganiad llywodraethu blynyddol 2015/16.**

11 CRYNODEB O WEITHGARWCH ARCHWILIO MEWNOL 2015/16 AC ASESIAD O ANGHENION A CHYNLLUN ARCHWILIO DRAFFT AR GYFER 2016/17

11.1 Cyflwynodd Keith Williams o Archwilio Mewnol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yr adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb i'r aelodau o'r gwaith archwilio mewnol a wnaed yn 2015/16 ac i ofyn iddynt gymeradwyo'r Asesiad o Anghenion Archwilio Mewnol a'r Cynllun Archwilio Mewnol Drafft ar gyfer 2016/17.

11.2 Aeth Keith Williams â'r Aelodau drwy'r adroddiad gan esbonio'r gwaith a wnaed yn ystod 2015/16. Roedd yr holl waith a gynlluniwyd wedi cael ei wneud heblaw am yr archwiliad salwch a ddisodlwyd gan archwiliad o reoli cyfleusterau – gwaith cynnal a chadw yn yr arfaeth a mân waith. Mae'r gwaith yn yr arfaeth ar gyfer 2016/17 yn cynnwys absenoldeb salwch, pensiynau ac atal a chanfod seiber-droseddau. Hefyd, cynhelir archwiliadau dilynol o'r argymhellion a wnaed yn 2015/16.

11.3 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r crynodeb o weithgarwch archwilio mewnol 2015/16; a**

**(ii) cymeradwyo'r asesiad anghenion a chynllun archwilio mewnol drafft 2016/17.**